# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Addysg Ôl-16 Arfon |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Beca Brown |
| **Swyddog perthnasol:** | Debbie Anne Williams Jones: Pennaeth Cynorthwyol Adran Addysg - Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Tachwedd 2023 |

## 1. PENDERFYNIAD A GEISIR:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo Opsiwn 2 ar gyfer prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon.

1.2 Cymeradwyaeth y Cabinet i'r Pennaeth Addysg gynnal trafodaethau ar adolygu y memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r rhan-ddeiliaid sydd yn ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r bwriad o gryfhau y trefniadau ac adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda argymhellion ar gyfer y diwygiadau gytunwyd.

1.3 Caniatâd y Cabinet i ddargyfeirio rhan o gyllideb prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sydd ym mhrosiectau Band B yn unol â'r adroddiad, nad oes modd symud ymlaen â hwy ar hyn o bryd gan nad oes cyllideb ddigonol ar eu cyfer yn sgil cynnydd mewn costau.

## 2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD PENDERFYNIAD

2.1 Mae amserlen cyflwyno achosion busnes ar gyfer ein prosiectau sydd yn rhan o amlen Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dod i ben fis Mawrth 2024, ac mae angen sicrhau ein bod wedi cyflawni ein hymrwymiadau o fewn Band B erbyn hynny. Mae Prosiect Addysg Ôl-16 Arfon yn rhan o amlen gyfalaf Band B.

2.2 Ym mis Mawrth 2020 cafwyd caniatâd gan y Cabinet i gychwyn proses ymgysylltu anffurfiol gyda rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn ystyried y ddarpariaeth ôl-16 bresennol, ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn adnabod y cyfeiriad a'r cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon. Lluniwyd adroddiad manwl sy'n dwyn y pennawd **Trosolwg Addysg ôl-16** fel sail i'r ymgysylltu.

2.3 Er mwyn cefnogi'r ymgysylltu, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithiol gyda dysgwyr, rhieni, staff dysgu a llywodraethwyr yn ystod y cyfnod er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn a holi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r maes. Cynhaliwyd 6 sesiwn rhithwir, a bu i dros 140 o ran-ddeiliaid fynychu.

2.4 Yn ogystal, er mwyn annog cymaint â phosibl i gyfrannu at y sgwrs, cynhaliwyd sesiynau rhithwir arbennig i gasglu barn a syniadau gan ddysgwyr yn Arfon am y math o gyfundrefn addysg ôl-16 fyddai'n cwrdd â'r weledigaeth ynghyd â'u hanghenion hwy a'u cyfoedion i'r dyfodol.

2.5 Gellir crynhoi'r prif negeseuon a dderbyniwyd o'r broses ymgysylltu anffurfiol fel a ganlyn:

- Y brif flaenoriaeth yw Ansawdd Addysg.
- Y dylid defnyddio TGCh i ategu a chefnogi'r dysgu wyneb yn wyneb.
- Bod Addysg Gymraeg a dwyieithog yn greiddiol bwysig (er rhai sylwadau i'r gwrthwyneb).
- Y dylid defnyddio'r arian cyfalaf i wella cyfleusterau ein hysgolion uwchradd yn gyffredinol fel bod modd i'r holl ddysgwyr 11-18 oed elwa o'r buddsoddiad.
- Bod gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw fwriad i ganoli neu drydyddu'r ddarpariaeth
- Y cafwyd sawl sylw am ddarpariaeth GLlM o safbwynt ansawdd, cyfrwng, a gofal bugeiliol.

2.6 Ar 7 Mawrth 2023, derbyniwyd caniatâd gan y Cabinet i wneud gwaith pellach gyda rhan-ddeiliaid er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon oedd yn deillio o'r ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd yn nhymor yr Hydref 2020.

## 3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Nid yw'r achos dros newid prosiect Addysg Ôl-16 Arfon mor gryf erbyn heddiw.**

3.1 Yn sgil penderfyniad y Cabinet ar 7 Mawrth 2023, cynhaliwyd dau weithgor gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Arfon yn Nhymor yr Haf 2023. Cafwyd trafodaethau agored ac adeiladol ar y cyfan, a hynny o dan arweiniad hwylusydd allanol. Gofynnwyd i'r penaethiaid ystyried eu hunain yn arweinwyr yn cynrychioli buddiannau holl ddysgwyr Arfon ac i geisio osgoi cynrychioli buddiannau eu hysgolion unigol.

3.2 Dyluniwyd y weithgaredd fel senario oedd yn lleoli'r penaethiaid 5 mlynedd yn y dyfodol. Gofynnwyd iddynt ddychmygu bod y gwaith o foderneiddio'r gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon wedi ei chwblhau gyda'r gyfundrefn yn cael ei gydnabod fel y gyfundrefn ddelfrydol i'w efelychu gan awdurdodau eraill.

3.3 Gofynnwyd i'r penaethiaid ystyried ac ateb cwestiynau treiddgar, yn benodol ar sut y bu iddynt lwyddo, yn gyntaf fel arweinwyr unigol, gan adrodd yn ôl ar yr hyn yr oeddynt yn ei ddeisyfu. Ail ran y dasg oedd gweithio ar y cyd i greu delfryd gyffredin, gan ystyried y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mwyaf trawiadol rhwng ei gilydd.

3.4 Nodwyd yr egwyddorion canlynol gan y penaethiaid oedd yn debyg yn dilyn trafodaeth ar yr hyn a ddeisyfir ar gyfer y gyfundrefn i'r dyfodol:

- Tegwch i'r dysgwyr
- Safonau
- Cymreictod
- Llais y rhanddeiliaid
- Cyd-berchnogi
- Ceisio gweld y darlun mawr
- Effaith unrhyw newid ar y gymuned
- Cyfundrefn gynaliadwy.

3.5 Nodwyd gan y penaethiaid bod y drefn bartneriaethol bresennol (Consortiwm Gwynedd ac Ynys Môn) a chyd-weithio rhwng yr ysgolion yn gweithio yn dda.

3.6 Ar 13 Medi 2023, rhannodd yr Adran Addysg gasgliadau'r ddau weithgor a gynhaliwyd gyda phenaethiaid uwchradd Arfon a oedd yn amlygu'r rhesymau pam nad oedd yr achos dros newid bellach mor gryf, sef bod:

- Adroddiad Thematig Estyn 'Partneriaethau ôl-16' (Ionawr 2021) yn cydnabod Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn fel arfer dda.
- Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) yn nodi nad oes diffygion amlwg yn y ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon, er y nodir bod oedi o safbwynt symud ymlaen gyda'r prosiect hwn dros y blynyddoedd diwethaf.
- Canlyniadau Safon Uwch ysgolion uwchradd Arfon haf 2023 yn ymddangos yn gadarnhaol ar y cyfan - er bod yn rhaid cydnabod nad yw'r data cychwynnol hwn wedi ei ddilysu a bod amrywiaeth yn parhau rhwng cyrsiau a rhwng sefydliadau. *(Cydnabyddir y caiff y canlyniadau eu dilysu yn Hydref 2023, ac na fyddent yn derfynol tan Rhagfyr 2023).*
- Cydweithio rhwng yr ysgolion uwchradd yn Arfon yn dda, ac nad oes dymuniad i unrhyw newid i'r gyfundrefn gael effaith niweidiol ar rai ysgolion uwchradd yn Arfon.
- Sicrhau llesiant dysgwyr yn allweddol, a rhan allweddol o hynny yw galluogi dysgwyr i barhau gyda'u haddysg ôl-16 yn eu cymunedau.
- Yr angen i edrych ar y gyfundrefn uwchradd yn ei chyfanrwydd, ac na ellir edrych ar addysg ôl-16 ar ei ben ei hun, heb ystyried yr effaith ar CA3 a CA4 (11-16 oed) hefyd.
- Yr angen i ystyried effaith tebygol newid demograffeg ar y gyfundrefn ysgolion yn ei chyfanrwydd i'r dyfodol.
- Yr her o orfod cyflwyno achos busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian (yn cynnwys arian cyfatebol gan y Cyngor) pan fo'r achos dros newid yn wan, neu'n fwy tebygol, yr her o gyflwyno achos busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ar gyfer parhau gyda'r status quo.

3.7 Ar sail y casgliadau uchod, mae'r Adran Addysg o'r farn bod y prif ystyriaethau uchod yn tanseilio'r achos dros newid gwreiddiol ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon, ac yn cydnabod bod ystyriaethau allweddol o'r newydd yn dylanwadu ar yr achos dros newid gwreiddiol, ac yn sgil hynny'n dylanwadu ar gyfeiriad y prosiect i'r dyfodol.

3.8 Mae canfyddiadau'r gweithgorau yn tystiolaethu bod y sefyllfa wedi esblygu o edrych ar gyfundrefn addysg ôl-16 Arfon ar ei ben ei hun ac y byddai unrhyw newid i'r gyfundrefn honno yn cael effaith ar weddill cyfundrefn ysgolion uwchradd Arfon.

3.9 Felly, casgliad y broses ymgysylltu, a barn glir y Penaethiaid ydi y dylai'r ddarpariaeth Addysg Ôl 16 yn Arfon barhau o fewn y 6 ysgol uwchradd.

3.10 Dros y misoedd nesaf byddwn yn ail afael yn y drafodaeth drwy'r Consortiwm Addysg Ôl-16 gan adnabod y camau penodol sydd angen eu cymryd i alluogi adeiladu ar y cydweithio presennol. Gallai hynny olygu y bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar rai safleoedd penodol yn y dyfodol, ac er nad ydym yn ddigon eglur ynglŷn â hynny ar hyn o bryd, byddwn angen bod yn fyw i hynny wrth ystyried rhaglenni a grantiau cyfalaf perthnasol yn y dyfodol.

## 4 CYLLIDEB BAND B RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY

4.1 Ar hyn o bryd, y tu hwnt i brosiect Addysg ôl-16, mae gennym 3 prosiect arall yn Band B y rhagwelir na fyddwn yn gallu gwireddu ein huchelgais ar gyfer gwelliannau i'r ysgolion ar sail y ffaith nad oes cyllideb ddigonol ar eu cyfer yn sgil cynnydd mewn costau.

1. **Ysgol Hirael** yw'r unig ysgol gynradd yn nalgylch Bangor sydd eto i dderbyn buddsoddiad fel rhan o gyllid Band A neu Band B.
2. **Uwchradd Bangor.** Er mwyn adeiladu ar y gwelliannau sylweddol sydd eisoes wedi eu cyflawni'n ddiweddar yn rhai o'r ysgolion cynradd ym Mangor, mae ymrwymiad i fuddsoddi yn yr uwchradd ym Mangor er sicrhau amgylchedd dysgu addas ar gyfer Ysgol Tryfan.
3. **Ysgol Brynrefail.** Er mwyn cyfarch y gwelliannau angenrheidiol i Ysgol Brynrefail, mae angen cyllideb ychwanegol ar y prosiect Cyflwr ac Addasrwydd, Band B er mwyn cynnwys Ysgol Brynrefail yn rhan o'r prosiect, gan gynyddu'r nifer o ysgolion sydd i dderbyn buddsoddiad.

4.2 Pe na byddai modd i ni symud ymlaen gyda gwireddu prosiectau Band B yn fuan ac o fewn yr amserlen, byddai'r Cyngor yn colli'r ymrwymiad ariannol sydd ganddo mewn egwyddor fel rhan o Band B i fuddsoddi yn yr ysgolion uchod, gan orfod cyflwyno

Cynllun Amlinellol Strategol o’r newydd erbyn mis Mawrth 2024 ar gyfer y Rhaglen Dreigl sydd yn olynu Band B er sicrhau ymrwymiad ariannol o’r newydd i fuddsoddi yn yr ysgolion uchod gan Lywodraeth Cymru.

4.3 At hynny, nid yw’n synhwyrol buddsoddi i gynnal a chadw adeiladau’r ysgolion yma pe na bai buddsoddiad sylweddol yn yr amgylchedd dysgu ar gael gan fod yr adeiladau wedi dod i ddiwedd eu hoes ac angen eu hadnewyddu gan eu bod yn anaddas ar gyfer addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain.

## 5 OPSIYNAU PROSIECT ADDYSG ÔL-16 ARFON

5.1 Yn seiliedig ar ganfyddiadau yn dilyn cyfnod o ymgysylltu anffurfiol gyda rhan ddeiliaid prosiect Addysg ôl-16 Arfon a chynnal gweithgorau gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Arfon, gofynnwn i’r Cabinet benderfynu ar ddyfodol y prosiect ar sail yr opsiynau isod.

**Opsiwn 1 – Buddsoddi yn y Gyfundrefn Addysg Ôl-16 bresennol**

Byddai’r opsiwn hwn yn fodd o rannu’r gyllideb rhwng y 6 ysgol uwchradd yn Arfon er mwyn creu gofodau dysgu ôl-16 pwrpasol fyddai ar ffurf darlithfeydd gyda thechnoleg o’r radd flaenaf i hwyluso dysgu hybrid. Byddai’r opsiwn hwn yn golygu cyllideb o oddeutu £2.5m i bob ysgol, ac yn fodd o sicrhau y byddai pob ysgol uwchradd yn derbyn buddsoddiad cyfalaf.

| **Cryfderau Opsiwn 1** | **Gwendidau Opsiwn 1** |
|---|---|
| Pob ysgol uwchradd yn Arfon yn parhau gyda chweched dosbarth, a dysgwyr yn gallu parhau i astudio yn eu cymunedau, gyda sylw amlwg i’w lles. | Peth amrywiaeth yn bodoli o hyd o ran ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr. |
| Pob ysgol uwchradd yn Arfon yn derbyn buddsoddiad cyfalaf. | Ni fyddai’r buddsoddiad cyfalaf yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i amgylchedd dysgu’r ysgolion, ac ni fyddai’n sicrhau y byddai ysgolion uwchradd Arfon gydag adnoddau yr un mor ddeniadol â’r buddsoddiad cyfalaf sylweddol gan Grŵp Llandrillo Menai. |
| | Byddai’n her cyflwyno achos busnes lwyddiannus yn seiliedig ar y status quo i sicrhau’r arian gan Lywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| | Byddai cyfyngu'r buddsoddiad cyfalaf i'r elfen ôl-16 yn unig yn fuddsoddiad mewn gwagle oddi wrth weddill anghenion y gyfundrefn ysgolion yn Arfon, ac yn fodd o beidio sicrhau'r gwerth gorau gan fod y gyllideb yn cael ei lledaenu mor denau. |
| Gofodau dysgu newydd a thechnoleg dysgu hybrid ar gael ymhob safle ar gyfer addysg ôl-16. | Nid oes sicrwydd y byddai'r ysgolion yn gwneud defnydd priodol lawn o'r gofodau dysgu newydd a'r dechnoleg i ddysgu hybrid, a byddai'n anodd gorfodi hynny gan nad yw dysgu hybrid yn amlwg yn rhan o drefniadau presennol Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd a Môn, nac yn flaenoriaeth gan ysgolion wrth gynllunio cwricwlwm ôl-16 eu hysgolion. |

**Opsiwn 2 - Arallgyfeirio Cyllideb Addysg Ôl-16 Arfon**

Ar hyn o bryd mae 3 prosiect arall yn Band B nad oes modd symud ymlaen â hwy gan nad oes cyllideb ddigonol ar eu cyfer yn sgil cynnydd mewn costau.

**i.) Prosiect Ysgol Hirael**

Mae cyllideb o £3m wedi ei chadarnhau ar gyfer gwneud gwelliannau angenrheidiol i Ysgol Hirael. Fodd bynnag, yn sgil comisiynu dyluniad o'r gwelliannau arfaethedig i'r ysgol, ac yn sgil cynnydd mewn costau, rhagwelir y bydd cost gwireddu'r gwelliannau i Ysgol Hirael yn £6.2m (gyda chyfraniad posib o £700k ar gyfer yr elfen Gofal Plant). Mae diffyg felly o hyd at £2.5m yng nghyllideb prosiect Ysgol Hirael ar hyn o bryd sy'n ein rhwystro rhag gallu symud ymlaen.

**ii.) Prosiect Ysgol Tryfan**

Yn wreiddiol, roedd amlen Bangor Gwedd 2 yn £18m (heb arian cyfatebol wedi ei glustnodi), fodd bynnag mae £3m ohono eisoes wedi ei gymeradwyo ar gyfer gwneud gwelliannau ar gyfer Ysgol Hirael, gan ragdybio y byddai'r arian cyfatebol o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn cael ei gymeradwyo. Golyga hyn fod y gyllideb wreiddiol o £18m wedi gostwng i £15m ar gyfer prosiect Bangor Gwedd 2.

Mae cyllideb o £15m felly wedi ei hymrwymo mewn egwyddor ar gyfer gwneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn ddibynnol ar gyflwyno achos busnes lwyddiannus gerbron Llywodraeth Cymru, ynghyd â sicrhau blaenoriaethu arian cyfatebol o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Ar sail y dyluniadau presennol, ac er mwyn gallu ymateb i holl anghenion Ysgol Tryfan, rhagwelir y bydd cost gwireddu'r gwelliannau i Ysgol Tryfan yn £18m. Mae diffyg o £3m felly yng nghyllideb prosiect Ysgol Tryfan yn ein rhwystro rhag gallu symud ymlaen ar hyn o bryd.

**iii.) Prosiect Cyflwr ac Addasrwydd – cynnwys Ysgol Brynrefail**

Ym mis Mawrth 2023 cyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cymru ar gyfer cam olaf y prosiect Cyflwr ac Addasrwydd, Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bryd hynny, oherwydd cynnydd mewn costau adeiladu, cytunwyd i hepgor rhai ysgolion o'r prosiect. Adnabuwyd Ysgol Brynrefail fel ysgol i'w hepgor o'r prosiect oherwydd y posibilrwydd o dderbyn buddsoddiad o ffynonellau eraill. Yn ddiweddar, mae'r Tîm Datblygu Eiddo wedi ail-edrych ar y gwelliannau angenrheidiol sydd eu hangen i Ysgol Brynrefail, a rhagwelir nawr mai amcangyfrif o gost y gwelliannau hyn fydd £2.6m. Nid oes cyllideb wedi'i nodi i ddiwallu'r angen hwn hyd yma.

5.3 Er eglurder, dyma sefyllfa ariannol Band B ar hyn o bryd.

| Prosiect | Cyllideb sydd ar gael heddiw | Cyllid sydd ei angen yn ychwanegol | Cyllideb yn dilyn amrywio'r amlen |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Hirael** | £3,000,000 | £2,500,000 | £5,500,000 |
| **Ysgol Tryfan (Bangor Gwedd 2)** | £15,000,000 | £3,000,000 | £18,000,000 |
| **Cyflwr ac Addasrwydd i gynnwys Ysgol Brynrefail** | £4,946,618 | £2,600,000 | £7,546,618 |
| **Ôl-16 Arfon** | £14,800,000 | £0 | £6,700,000 |
| **CYFANSWM** | **£37,746,618** | **£8,100,000** | **£37,746,618** |

## 6 BARN YR ADRAN ADDYSG

6.1 Yn sgil yr holl ystyriaethau uchod yng nghyd-destun addysg ôl-16 a gweddill rhaglen Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, barn yr Adran Addysg yw nad oes achos dros newid digonol ar gyfer y prosiect Addysg ôl-16 yn Arfon bellach, ac ni fyddai sicrwydd o lwyddiant achos fusnes o gyflwyno cais gwerth hyd at £14.8m ar gyfer parhau gyda'r status quo. Hefyd, mae'n annhebygol y byddai rhannu'r gyllideb rhwng y 6 ysgol ar sail prisiau'r farchnad bresennol yn arwain at newid arwyddocaol i'r amgylchedd dysgu.

6.2 Opsiwn ffafriedig yr Adran Addysg felly yw Opsiwn 2 gan ei fod yn gyfrwng i gyfarch gwir anghenion ysgolion Hirael, Tryfan a Brynrefail, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r amgylchedd dysgu a phrofiadau dysgwyr yn y 3 ysgol yma. O arallgyfeirio cyllideb y prosiect Addysg ôl-16 mae arian cyfatebol ar gyfer gwireddu'r gwelliannau i'r ysgolion yma, o dderbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

## 7 CAIS I LYWODRAETH CYMRU AM ADDASIAD I GYLLIDEB BAND B

7.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, bydd angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru i drosglwyddo £8.1m o fewn amlen Band B er mwyn symud ymlaen efo prosiectau Ysgol Hirael, uwchradd Bangor – Ysgol Tryfan yn bennaf ac Ysgol Brynrefail a chyflwyno achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

7.2 Mae cais i drosglwyddo cyllideb o £8.1m o brosiect Addysg Ôl-16 Arfon i'r 3 prosiect wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 2 Tachwedd 2023. Bydd angen cadarnhau penderfyniad y Cabinet cyn cyfarfod Panel Buddsoddi'r Llywodraeth ar 14 Rhagfyr 2023 er mwyn iddynt ystyried cefnogi'r cais i drosglwyddo cyllid i brosiect Ysgol Hirael, uwchradd Bangor – Ysgol Tryfan yn bennaf ac Ysgol Brynrefail o brosiect arall yn Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 8 CAMAU NESAF

8.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo £8,100,000 o gyllideb Prosiect Ôl-16 Arfon o amlen Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael, uwchradd Bangor - Ysgol Tryfan yn bennaf ac Ysgol Brynrefail.

8.2 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.3 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb i'r 3 prosiect Band B a nodir, rhagwelir y byddai modd bwrw ati'n syth i gyflwyno Achosion Busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian i'n galluogi i gyfarch y cynnydd mewn costau adeiladu a gwireddu ein huchelgais.

8.3 Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i Opsiwn 2, bydd yr Adran Addysg yn diweddaru'r rhanddeiliaid allweddol yn briodol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef

Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Mae'r argymhellion wedi eu datblygu a pharatoi o fewn fframwaith y Ddeddf a bwriedir rhoddi ystyriaeth cyson i 'r amcanion ac egwyddorion yma wrth symud y cynllun ymlaen.

**Cydraddoldeb**

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb ynghyd â dyletswyddau cyffredinol er sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i ystyried effaith unrhyw newid i bolisi neu weithdrefn o'r newydd ar bobl efo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig, sef hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol wedi ei lunio fel rhan o'r gwaith o ddarlunio trosolwg cyfredol o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd, a bydd yr Asesiad yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn sgil trafodaethau pellach. Gweler **Atodiad 1**. Mae'r canfyddiadau o'r asesiad yn nodi ei bod yn gynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. Byddem yn sicrhau beth bynnag bo cyfeiriad y gwaith ein bod yn ystyried unrhyw effaith ar gydraddoldeb.

**9 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

9.1 Cynhaliwyd proses ymgysylltu anffurfiol yn nhymor yr Hydref 2020 gyda rhan-ddeiliaid allweddol prosiect Addysg ôl-16 Arfon er mwyn edrych ar y ddarpariaeth, ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon.

9.2 Yn ystod y cyfnod ymgysylltu anffurfiol hwn, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu gyda:

- Rhieni
- Dysgwyr
- Llywodraethwyr
- Penaethiaid a holl staff Ysgolion Uwchradd Arfon

9.3 Adroddwyd ar gasgliadau'r broses Ymgysylltu Anffurfiol gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021

## 10 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

### 10.1 Prif Swyddog Cyllid

"Credaf fod yr hyn a gynigir yn rhesymol ac nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.  Mae dargyfeirio adnoddau i'r cynlluniau yn ysgolion Hirael, Tryfan a Brynrefail yn gwneud synnwyr o safbwynt ariannol yng nghyd-destun costau cynyddol y cynlluniau hynny, ac o ystyried nad yw'r achos dros newid ar gyfer prosiect Addysg Ôl-16 Arfon mor gryf erbyn hyn ag yr oedd yn flaenorol."

### 10.2 Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol . Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

---

**Rhestr Atodiadau:**

**Atodiad 1-** Asesiad Effaith Cydraddoldeb